O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2429 (Cy.262)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Dwyrain o Ros-goch, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *17 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd am resymau diogelwch.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[1], a phob pŵer galluogi arall[2], drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Hydref 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Dwyrain o Ros-goch, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 17 Hydref 2011 ac yn dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd deithio ar gyflymdra o fwy na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd yn

Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 238 metr i'r gogledd-ddwyrain o linell ganol ei chyffordd â Ffordd Dosbarth II y B4314 i Tavernspite, hyd at bwynt 4390 metr i'r gogledd-ddwyrain o linell ganol ei chyffordd â Ffordd Dosbarth II y B4314 i Tavernspite.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 5 Hydref 2011.

***G R Morgan***
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.